YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

Medi 2023

**Noson fugeiliol bl 12 – Nos Lun, 2ail o Hydref**

Annwyl riant/gwarcheidwad,

Rwy'n falch iawn bod eich plentyn wedi penderfynu dychwelyd atom yn y Chweched Dosbarth ym Mryn Tawe. Gallaf eich sicrhau y bydd ein myfyrwyr Chweched Dosbarth yn parhau i dderbyn addysg, gofal a chyfleoedd allgyrsiol o'r radd flaenaf a hynny tra'n datblygu sgiliau gwerthfawr ac yn meithrin annibyniaeth.

Rydym yn awyddus i barhau i weithio mewn partneriaeth gyda chi, yn rhieni a gwarcheidwaid, a hynny er lles ein myfyrwyr. **Gwahoddir chi felly i noson arbennig i rieni a gwarcheidwaid myfyrwyr Blwyddyn 12, Nos Lun yr 2ail o Hydref am 6:00 yr hwyr, yn Neuadd Cilfwnwr yr ysgol.** Bwriad y noson fydd rhannu gwybodaeth am drefniadau'r flwyddyn, disgwyliadau'r ysgol, amserlen eich mab/merch ac amlinellu agweddau pwysig o fywyd yn y Chweched ym Mryn Tawe.

Bydd y noson hefyd yn gyfle gwych i chi gwrdd â Thiwtor Personol eich plentyn ac i drosglwyddo unrhyw bryderon sydd gennych neu i ofyn cwestiynau os ydych am fwy o wybodaeth.

Rwy'n eich annog i fynychu'r cyfarfod; fe fydd gwybodaeth bwysig yn cael ei throsglwyddo i chi ac fe fydd yn braf eich cyfarfod ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon.

Edrychaf ymlaen at eich gweld ar y noson.

Yn gywir,

Mr Ben Davies
(Pennaeth y Chweched)

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n parchu hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl Aur
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies